# Ymarfer cyntaf yr olygfa byrfyfyr

**Mae’r testun hwn o** **http://www.bbc.co.uk/education/guides/zp4jq6f/revision**

**CYFARWYDDWR:** Felly, rydyn ni isio bach o fyrfyfyrio, ac wedyn mae’r gweinydd yn dod i roi’r Prawn Cocktail i lawr, a gan ein bod ni ar y radio - fyddan nhw ddim yn gweld y Prawn Cocktail. Ella, does dim rhaid iddo fo ddeud, achos mae hi'n od bod o'n deud ... fysa chdi'n gallu deud 'Prif Gwrs' - 'Cwrs Cyntaf' a dy fod ti'n gwneud 'comment' mai Prawn Cocktail ydi o.

**GWYN:** Ydan ni angen rhywun i actio'r Prawn Cocktail?

<Pawb yn chwerthin>

**CYFARWYDDWR:** Robin?

**EIRY:** So, mae e'n dweud "mae gen i fenyw i ddelio efo pethau felly"...

**CYFARWYDDWR:**Ia.

EIRY: Oes gyda ni rhywbeth arall, neu ydy e'n dod straight mewn ar ôl cael y Prawn Cocktail yn fa'na ... a wedyn ar ôl i'r Prawn Cocktail fynd lawr, mae'r intro yn fan 'na ia?

**CYFARWYDDWR:** Ia.

**GWYN:** Felly, mae gen i lein 'Prawn Cocktail' yn fan 'ma oes, neu jysd rhoi o i chi?

**DYFRIG:** 'Cwrs Cyntaf'?

**GWYN:** 'Cwrs Cyntaf' ia? Iawn. Oce.

**DYFRIG:** Be? Drwy'r post ddoth o felly?

**FFLUR:** Ymmmm .. Ia, Ia!

**EIRY:** Ia, Ia. 'So chi'n agor post eich hunan?

**DYFRIG:** Na. Mae gen i ddynes sy'n delio efo pethau felly.

**GWYN:** Y cwrs cyntaf...

**DYFRIG:** Prawn cocktail - neis!

**FFLUR:** Dim dyna fyswn i wedi ei ddewis chwaith, mae arnai ofn.


© Copyright 2014

**EIRY:** Blasus.

**DYFRIG:** Dipyn bach yn '80s' yn dydi?

**EIRY:** Mae'r saws yn edrych yn neis. A'r letys ar yr ochr yn fan 'na. Lyfli. Mae'r rhain yn ffresh hefyd.

**DYFRIG:** <sŵn cnoi> ... Dipyn bach wedi rhewi. Dal wedi rhewi. <sŵn cnoi>
Hei, dw i'n siŵr mod i wedi dy weld di'n rhywle o'r blaen ynde.

**FFLUR:** Do? ... Wel, dwi ddim yn byw yn bell ynde.

**DYFRIG:** Wyt ti'n mynd i'r Blue Sky Gym?

**FFLUR:** Ydw, weithiau. Ydw.

**DYFRIG:** Be wyt ti, Size 8 ta...

**EIRY:** Personol yn dydi?

**FFLUR:** Ydy. Braidd!

<chwerthin>

**DYFRIG:** Hmmm... Ia...

**EIRY:** Wel, mae e'n flasus iawn.

**DYFRIG:** Ydy. Hyfryd. Ydy.

**EIRY:** Chwarae teg.

**DYFRIG:** Rhyfedd fod 'na neb arall yma hefyd ynde?

**EIRY:** Hmmm...

**DYFRIG:** ... Pasia'r halen 'na i fi. ... Diolch.
Ew, mae gen ti ddwylo bach.

**FFLUR:** Hmmm. Ti'n meddwl?

**DYFRIG:** Ti 'di gwneud dy winedd hefyd - neis!

**FFLUR:** O, diolch. Diolch. Mi oedd o'n ddrud hefyd.

**DYFRIG:** Ydyn?

**FFLUR:** Mae prisiau yn mynd i fyny yn bob man yma.

 **© Copyright 2014**